**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (LEWIS ROAD, Y SBLOT, CAERDYDD) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, i ddarparu ar gyfer y darnau o briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn ac i wella'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r priffyrdd, ac nid awdurdodir cau'r priffyrdd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ar 3 Chwefror 2023 o dan y cyfeirnod 22/02308/FUL a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Lewis Road, y Sblot, Caerdydd) 202- ("y Gorchymyn"), os caiff ei wneud, yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod yr 28 o ddiwrnodau o 22 Mawrth 2023 ymlaen, gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn drafft a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yn Hyb y Llyfrgell Ganolog, yr Aes, Caerdydd, CF10 1FL, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1505183.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru erbyn 19 Ebrill 2023.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phersonau a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi a'ch data personol yn cael eu trosglwyddo i'r ceisydd/datblygwr ac, os oes angen, i'r awdurdod priffyrdd lleol i'w galluogi hwy i ymateb i chi. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Pan na fo gwrthwynebiadau yn gallu cael eu datrys a phan fo'r Gorchymyn yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus ("YC"), caiff pob gohebiaeth ei chopïo i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd.

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LEWIS ROAD, SPLOTT, CARDIFF) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Notice and to provide for the lengths of new highway described in Schedule 2 to this Notice as well as to improve the areas of highway described in Schedule 3 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the County Council of the City and County of Cardiff on 3rd February 2023 with reference 22/02308/FUL described in Schedule 4 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Lewis Road, Splott, Cardiff) Order 202- ("the Order"), if made, will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

During 28 days from 22 March 2023 copies of the draft Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal opening hours at Central Library Hub, The Hayes, Cardiff, CF10 1FL, or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1505183.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by email to TransportOrdersBranch@gov.wales by 19 April 2023.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with persons and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process, the information you have provided and your personal data will be passed to the applicant/developer and, if necessary, to the local highway authority to enable them to respond to you. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. Where objections cannot be resolved and the Order becomes subject to a Public Inquiry ("PI"), all correspondence is copied to the Inspector of the PI and is available in the PI library when it becomes publicly available.

Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd YC yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**
**Y darnau o briffordd sydd i'w cau**

1. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o Lewis Road a mynediad cysylltiedig i Uned Ddiwydiannol, y Sblot, Caerdydd y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 4665 o fetrau sgwâr, sydd wedi ei labelu ag 'A' ac wedi ei farcio â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

2. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar ochr ddeheuol Forgeside Close o'i chyffordd â Lewis Road, y Sblot, Caerdydd i gyfeiriad y gorllewin y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 73 o fetrau sgwâr, sydd wedi ei labelu â 'B' ac wedi ei farcio â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

3. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar ymyl gorllewinol Ystad Ddiwydiannol Portmanmoor Road, i'r de o Freshmoor Road, y Sblot, Caerdydd y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 100 metr sgwâr, sydd wedi ei labelu ag 'C' ac wedi ei farcio â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

4. Hen fynedfa ar ochr ddeheuol Forgeside Close y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 68 o fetrau sgwâr, sydd wedi ei labelu â 'K' ac wedi ei marcio â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a PI, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**(All measurements are approximate)**
**Lengths of highway to be stopped up**

1. An irregular shaped length of highway being part of Lewis Road and associated access to Industrial Unit, Splott, Cardiff having a maximum surface of 4665 square metres, labelled 'A' and marked with zebra hatching on the deposited plan.

2. An irregular shaped length of highway located on the southern side of Forgeside Close from its junction with Lewis Road, Splott, Cardiff heading in a westerly direction having a maximum surface of 73 square metres, labelled 'B' and marked with zebra hatching on the deposited plan.

3. An irregular shaped length of highway located on the western edge of Portmanmoor Road Industrial Estate, south of Freshmoor Road, Splott, Cardiff having a maximum surface of 100 square metres, labelled 'C' and marked with zebra hatching on the deposited plan.

4. A former access located on the southern side of Forgeside Close having a maximum surface of 68 square metres, labelled 'K' and marked with a zebra hatching on the deposit plan.

**ATODLEN 2**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**
**Y darnau o briffordd newydd sydd i'w ddarparu**

1. Darn petryalog ei siâp o briffordd i'r de o Freshmoor Road i gyfeiriad y de-ddwyrain sy'n cysylltu â Portmanmoor Road, y Sblot, Caerdydd y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 105 o fetrau sgwâr, sydd wedi ei labelu ag 'F' ac wedi ei farcio â dotwaith ar y plan a adneuwyd.

2. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r de o Portmanmoor Road i gyfeiriad y de-ddwyrain ac yna i'r gorllewin sy'n cysylltu o Portmanmoor Road tuag at Lewis Road, y Sblot, Caerdydd y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 433 o fetrau sgwâr, sydd wedi ei labelu ag 'G' ac wedi ei farcio â dotwaith ar y plan a adneuwyd.

3. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r dwyrain o Lewis Road, y Sblot, Caerdydd i gyfeiriad y dwyrain y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 55 o fetrau sgwâr, sydd wedi ei labelu ag 'M' ac wedi ei farcio â dotwaith ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 3**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**
**Y darnau o briffordd sydd i'w gwella**

1. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar ochr ddeheuol Forgeside Close o'i chyffordd â Lewis Road, y Sblot, Caerdydd i gyfeiriad y gorllewin y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 79 o fetrau sgwâr, sydd wedi ei labelu â 'D' ac wedi ei farcio â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd.

2. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o Lewis Road i'r gorllewin o'i chyffordd â Freshmoor Road, y Sblot, Caerdydd y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 55 o fetrau sgwâr, sydd wedi ei labelu ag 'E' ac wedi ei farcio â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd.

3. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar ben de-orllewinol Lewis Road, y Sblot, Caerdydd sy'n dod yn fan troi y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 88 o fetrau sgwâr, sydd wedi ei labelu ag 'H' ac wedi ei farcio â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd.

4. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar ochr ddeheuol Forgeside Close o'i chyffordd â Lewis Road, y Sblot, Caerdydd i gyfeiriad y gorllewin y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 15 metr sgwâr, sydd wedi ei labelu â 'J' ac wedi ei farcio â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd.

**SCHEDULE 2**
**(All measurements are approximate)**
**Lengths of new highway to be provided**

1. A rectangular shaped length of highway located south of Freshmoor Road heading in a south easterly direction connecting to Portmanmoor Road, Splott, Cardiff having a maximum surface of 105 square metres, labelled 'F' and marked with stipple on the deposited plan.

2. An irregular shaped length of highway located south of Portmanmoor Road heading in a south easterly direction and then west connecting from Portmanmoor road towards Lewis Road, Splott, Cardiff having a maximum surface of 433 square metres, labelled 'G' and marked with stipple on the deposited plan.

3. An irregular shaped length of highway located east of Lewis Road, Splott, Cardiff heading in an easterly direction having a maximum surface of 55 square metres, labelled 'M' and marked with stipple on the deposited plan.

**SCHEDULE 3**
**(All measurements are approximate)**
**Lengths of highway to be improved**

1. An irregular shaped length of highway located on the southern side of Forgeside Close from its junction with Lewis Road, Splott, Cardiff heading in a westerly direction having a maximum surface of 79 square metres, labelled 'D' and marked with cross hatching on the deposited plan.

2. An irregular shaped length of highway being part of Lewis Road located west of its junction with Freshmoor Road, Splott, Cardiff having a maximum surface of 55 square metres, labelled 'E and marked with cross hatching on the deposited plan.

3. An irregular shaped length of highway located at the south western end of Lewis Road, Splott, Cardiff becoming a turning head having a maximum surface of 88 square metres, labelled 'H' and marked with cross hatching on the deposited plan.

4. An irregular shaped length of highway located on the southern side of Forgeside Close from its junction with Lewis Road, Splott, Cardiff heading in a westerly direction having a maximum surface of 15 square metres, labelled 'J' and marked with cross hatching on the deposited plan.

5. Darn sgwâr ei siâp o briffordd i'r de o Portmanmoor Road i gyfeiriad y de-ddwyrain ac yna i'r gorllewin sy'n cysylltu o Portmanmoor Road tuag at Lewis Road, y Sblot, Caerdydd y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 13 o fetrau sgwâr, sydd wedi ei labelu ag 'L' ac wedi ei farcio â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 4**
**Y Datblygiad**

Bydd y datblygiad ar y tir oddi ar Lewis Road, y Sblot, Caerdydd yn cynnwys dymchwel adeiladau, cael gwared ar loriau caled, newid proffil y safle a gwaith cysylltiedig.

5. A square shaped length of highway located south of Portmanmoor Road heading in a south easterly direction and then west connecting from Portmanmoor road towards Lewis Road, Splott, Cardiff having a maximum surface of 13 square metres, labelled 'L and marked with cross hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 4**
**The Development**

The development located at the land off Lewis Road, Splott, Cardiff will include the demolition of buildings, removal of hardstanding areas, reprofiling of site and associated works.